**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar Brosiect y Ddraig Goch, Sain Tathan: Adroddiad y Pwyllgor (3) -11-09**

Rydym yn ddiolchgar am yr adroddiad hwn ac yn nodi bod y Pwyllgor yn cydnabod bod gwersi yn cael eu dysgu wrth i'r cynlluniau cyfredol ar gyfer ailddatblygu safle Sain Tathan fynd rhagddynt. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod bod Cymru yn debygol o elwa ar y cynlluniau ailddatblygu cyfredol.

Rydym yn nodi nad oes unrhyw argymhellion penodol. Fodd bynnag, rydym am achub ar y cyfle hwn i ymateb i ddau gais penodol yn adroddiad y Pwyllgor.

**<u>Canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i geisio eglurhad gan y Trysorlys ac Adrannau eraill y Llywodraeth, a dod i gytundeb â hwy, am ba mor berthnasol yw canllawiau'r Llyfr Gwyrdd yn sgil datganoli.**

Mae'r Llyfr Gwyrdd yn nodi'r dull y dylid ei ddilyn wrth gynnal arfarniad economaidd. Mae'n trafod yr egwyddorion allweddol ac yn nodi'r arferion gorau. Fel y cyfryw, mae'r cynnwys yn berthnasol yn gyffredinol ar draws y llywodraeth, gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig. Fodd bynnag, mae rhai materion penodol sy'n berthnasol i arfarnu prosiectau sy'n croesi ffiniau. Byddai'n fuddiol taflu mwy o oleuni ar y materion hynny, a dylid diwygio rhai materion terminoleg. Ar hyn o bryd, mae Trysorlys Ei Mawrhydi wrthi'n paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Llyfr Gwyrdd. Byddwn yn cyfarfod â'r Trysorlys i drafod yr opsiynau ar gyfer gwella'r canllawiau yn y cyd-destun hwn.

**<u>Rheoli prosiectau ar y cyd yn y dyfodol</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu mynd ati yn y dyfodol i reoli prosiectau buddsoddi mawr y bydd hi ac adrannau eraill Llywodraeth y DU yn gysylltiedig â hwy ar y cyd.**

Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gydweithio'n effeithiol pan mae Adrannau eraill Llywodraeth y DU, neu gyrff cyhoeddus, yn gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod meddu ar y sgiliau perthnasol yn hanfodol er mwyn cyflawni prosiectau a rhaglenni ar y cyd yn llwyddiannus. Mae gan adrannau ar draws Llywodraeth y Cynulliad gryn brofiad o gydweithio ag adrannau Llywodraeth y DU ar amryw o raglenni. Mae'r sgiliau

hynny yn cael eu defnyddio'n llawn ar brosiectau mawr ar y cyd, a bydd hynny'n parhau i ddigwydd.

Mae ein Strategaeth Sgiliau, sydd â Sgiliau Proffesiynol ar gyfer Llywodraeth yn ganolog iddi, yn nodi'r camau gweithredu ar y cyd sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod gennym y sgiliau sy'n angenrheidiol nawr ac yn y dyfodol. Ei hamcanion yw codi safonau, gwella perfformiad unigolion, gwella gallu sefydliadau, ac yn y pen draw, gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae atgyfnerthu proffesiynau, er mwyn gyrru'r rhaglen sgiliau yn ei blaen, yn rhan allweddol o'r strategaeth hon.

Mae Llywodraeth y Cynulliad, yn unol â'r hyn a sefydlwyd eisoes o dan Sgiliau Llywodraeth, wedi sefydlu 26 proffesiwn fel rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn gwella sgiliau staff ym mhob proffesiwn. Bydd hyn yn ein helpu i ddod yn fwy proffesiynol a chydweithio ar draws portffolios, a gyda rhanddeiliaid eraill. Mae pob proffesiwn yn cael ei arwain gan Bennaeth Proffesiwn. Mae rôl Pennaeth y Proffesiwn yn ein galluogi i droi cefn ar y diffyg cyfathrebu a chydweithio a welwyd yn y gorffennol, er mwyn inni ddatblygu a rheoli'n well y sgiliau proffesiynol sydd eu hangen ledled Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae gan Bennaeth y Proffesiwn ar gyfer Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod y gweithdrefnau priodol a'r arferion gorau o ran cydweithio yn cael eu trosglwyddo i bob aelod o staff sy'n gyfrifol am gyflenwi prosiectau mawr, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu. Rydym yn monitro'r trefniadau a fabwysiadwyd ar gyfer prosiectau mawr unigol, a byddwn yn parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu trosglwyddo i staff a'u defnyddio i wella trefniadau yn y dyfodol.

Fel rhan o'r gwaith o fabwysiadu safonau a gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a Rhaglenni yn fwy eang, mae Pennaeth y Proffesiwn ar gyfer Rheoli Prosiectau a Rhaglenni yn ystyried sut y gellir defnyddio'r dulliau rheoli hyn wrth gyflenwi prosiectau/rhaglenni yng nghyd-destun prosiectau ar y cyd ag adrannau eraill Llywodraeth y DU. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellid pwysleisio hyn yn y gwaith sydd eisoes ar y gweill i ddiweddaru concordatau dwyochrog gydag Adrannau Llywodraeth y DU.

Yn ogystal â hynny, rydym wedi dechrau'n ffurfiol ar y broses o ennill statws canolfan achrededig Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) ar gyfer cynnal adolygiadau Gateway. Rydym yn gobeithio cyflawni hyn erbyn diwedd 2010.

Drwy ddod yn ganolfan achrededig, gallwn gynnal adolygiadau Gateway yr OGC ledled Cymru gyfan, gan sicrhau manteision niferus, sy'n cynnwys:

- cynnig mwy o ffocws strategol i'r broses cynllunio prosiectau/rhaglenni;
- sicrhau y bydd prosiectau yn cael eu cyflenwi yn unol â pholisïau Llywodraeth y Cynulliad;
- sicrhau canlyniadau mwy costeffeithiol a llai o fethiannau yng nghyd-destun rhaglenni/prosiectau;

- codi proffil Gwerth Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- lledaenu'r arferion gorau yn fwy eang ar draws sector cyhoeddus Cymru;
- cydweithio'n well ag adrannau eraill y llywodraeth a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Er mwyn cefnogi'r trefniadau uchod, rydym wedi gwneud llawer o waith gyda'r nod o wneud y Model Pum Achos yn rhan annatod o ddatblygu a rheoli ein hachosion busnes. Rydym yn hyrwyddo'r dull hwn fel y model arferion gorau y dylai'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru ei fabwysiadu.

Mae Gateway wedi hen ymsefydlu yn y Model Pum Achos fel rhan o broses arferion gorau. Bydd canolfan Gateway yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig rhagor o fanteision i raglenni/prosiectau sy'n defnyddio'r model hwn drwy gynnig dull o roi sicrwydd drwy swyddog cyfrifyddu yn ystod pob cam. Bydd hynny'n sicrhau bod proffil uchel yn cael ei ddarparu a'i gynnal o ran rhoi sicrwydd, a bod rhaglenni/prosiectau yn cael eu monitro'n briodol gydol eu cylch oes.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Ionawr 2010**